**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (13)**

**Dydd Mercher, 27 Mehefin 2001**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Pwynt o Drefn**
Cynigiodd **Edwina Hart** ohirio ei datganiad ar "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - Ystyried yr Ymatebion i'r Ail Ymgynghoriad" am nad oedd y datganiad ar gael i'r pleidiau eraill cyn dechrau'r sesiwn.

Cytunodd y Llywydd i ohirio hyn.

**Oherwydd absenoldeb y Prif Weinidog a oedd i gynnig y ddadl ganlynol gohiriodd y Llywydd y Sesiwn am 10 munud.**

**9.15am**
**Dadl ar Gymru a'r Byd**
***NDM709 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:***
Yn cymeradwyo ymrwymiad y Cabinet i godi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Dileu "y Cabinet" ac ychwanegu "clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol – Llafur".

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu brawddeg newydd, sy'n darllen:
"Yn cydnabod yr angen am adnoddau ychwanegol er mwyn adfywio'r diwydiant twristiaeth ac yn ceisio hyrwyddo twristiaeth Cymru dramor".

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu brawddeg newydd, sy'n darllen:
"Yn galw ar glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol – Llafur i gynhyrchu'r amodau angenrheidiol

i ddenu rhagor o fuddsoddi mewnol i economi Cymru".

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Weinyddiaeth Lafur/Democratiaid Rhyddfrydol i seilio ei hymdrechion i godi proffil rhyngwladol Cymru ar werthoedd Cymreig nodweddiadol, yn arbennig egwyddor drosfwaol y Cynulliad Cenedlaethol o ddatblygiad cynaliadwy.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Weinyddiaeth Lafur/Democratiaid Rhyddfrydol i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd rhan gyflawn ym mhob cynhadledd ac ymgynghoriad gan gyrff perthnasol yr Undeb Ewropeaidd a chyrff rhyngwladol eraill.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 9; Ymatal 13; Yn erbyn 26; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 24; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 9; Ymatal 13; Yn erbyn 26; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 13; Ymatal 9; Yn erbyn 26; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Y cynnig**

O Blaid 47; Ymatal 1; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48

**Derbyniwyd y cynnig**

**10.26am**
*Gwnaed cynnig trefniadol gan y Trefnydd o dan Reol Sefydlog 6.16 i gyflwyno'r datganiad canlynol a ohiriwyd o drafodion cynharach*

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**
For 47; Abstain 0; Against 0; Total 47

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**10.26am**
**Datganiad**

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf - Ystyried yr ymatebion i'r ail ymgynghoriad"

**11.04am**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl ar yr Undeb Ewropeaidd o dan Reol Sefydlog 6.5**
*NDM710 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2000 – 2001 y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a gyflwynwyd i’r Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2001;

2. Yn cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed yn y gwaith o gryfhau’r berthynas rhwng Cymru a’r Undeb Ewropeaidd a’i sefydliadau drwy i Weinidogion y Cynulliad gymryd mwy o ran yng Nghyngor y Gweinidogion, rôl swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel a’r penderfyniad diweddar i ymuno â Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol;

3.Yn nodi’r cynnydd a wnaed yn y gwaith o roi Cronfeydd Strwythurol Ewrop ar waith yng Nghymru;

4. Yn galw ar Gabinet y Cynulliad i ystyried yr effaith y bydd y materion allweddol o ran ehangu'r Undeb Ewropeaidd, polisi cydlynu yn y dyfodol a llywodraeth Ewropeaidd yn ei chael ar Gymru ac yn galw arnynt i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cydnabod;

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:
ac yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod Aelodau Cabinet y Cynulliad yn chwarae rôl flaenllaw yng Nghyngor y Gweinidogion pan fydd materion o bwysigrwydd hanfodol i Gymru'n cael eu trafod.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
ond yn gresynu na chaniatawyd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd drafod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop, oherwydd nad ydynt yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor hwn;

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Dileu pwynt 4, ac ychwanegu yn ei le:
Yn galw ar Gabinet y Cynulliad i fanteisio ar y cyfle i gyfrannu at y ddadl ar ehangu'r Undeb Ewropeaidd, polisi cydlynu yn y dyfodol a Llywodraeth Ewropeaidd trwy sicrhau bod sylwadau'r Cynulliad yn cael eu cyflwyno ym mhob fforwm sydd ar gael mewn modd amserol a chyson;

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw am rôl graffu wedi'i diffinio'n glir ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd;

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn gresynu na arwyddodd Prif Weinidog Cymru y datganiad gwleidyddol gan Lywodraethau Bafaria, Catalonia, Gogledd Rhine Westphalia, Salzburg, yr Alban, Wallonia a Fflandrys ar ddyfodol yr Undeb Ewropeaidd (28 Mai 2001).

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig
Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i fynegi siom dirfawr y Cynulliad i Brif Weinidog y DU ei fod wedi methu â chefnogi Strategaeth Datblygu Cynaliadwy gynhwysfawr ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, a elwir yn broses Caerdydd, yn Uwch gynhadledd yr UE yn Gothenburg.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 13; Ymatal 9; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 13; Ymatal 9; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Y cynnig**

O Blaid 36; Ymatal 13; Yn erbyn 1; Cyfanswm 50

**Derbyniwyd y cynnig**

**11.56am**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*NDM708 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol :*

1. Yn nodi'r problemau difrifol sy'n wynebu pobl leol o ran cael mynediad i gartrefi fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ar hyd a lled Cymru, ynghyd ag impact hynny ar gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw,
2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg manwl o'r sefyllfa hon ac i gyflwyno polisïau i fynd i'r afael â hi.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ym Mhwynt 1. Dileu "Nodi" ac ychwanegu "Cydnabod".

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ym mhwynt 1. Dileu ", ynghyd ag impact hynny ar gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw". **TYNNWYD YN OL**

**Gwelliant 3- William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd rhwng pwynt 1 a 2 sy'n darllen:
"Yn cydnabod bod angen i Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol – Llafur gymryd camau pellach i adfywio'r economi gwledig."

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ym Mhwynt 2. Dileu "Llywodraeth Cymru" ac ychwanegu "Clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol – Llafur".

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu pwynt pellach sy'n darllen:
"Yn condemnio'r ymgyrch o weithredu uniongyrchol a gynigiwyd gan Gymdeithas yr Iaith".

**Gwelliant 6- William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu Pwynt pellach, sy'n darllen:
"Yn galw ar glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol – Llafur i roi rhaglen addysg gymunedol ddwys ar waith er mwyn hybu, a chynyddu'r cyfleoedd i bobl Cymru ddysgu eu hiaith genedlaethol".

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 8; Ymatal 25; Yn erbyn 13; Cyfanswm 46

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Tynnwyd Gwelliant 2 yn l**

**Gwelliant 3**

O Blaid 21; Ymatal 26; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 8; Ymatal 26; Yn erbyn 13; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 8; Ymatal 27; Yn erbyn 13; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 21; Ymatal 27; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd gwelliant 6**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 13; Ymatal 6; Yn erbyn 35; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.05pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 28 Mehefin 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A OSODWYD AR 19 MEHEFIN 2001**

LC288 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2001 LD895
LC289 - Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001 LD894
LC290 - Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol a Blwyddyn Ysgol (Diwygio) (Cymru) 2001 LD893
LC291 - Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Addysg Bellach) (Cymru) 2001 LD896
LC292 - Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 LD897